Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Arfarniad o ddysgu troseddwyr ôl-18 yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y nod – The Corporate Standard – Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD – GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

CHWEFROR 2009

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **3** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Asesu anghenion dysgu troseddwyr** | **7** |
| **Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad** | **9** |
| **Cynlluniau dysgu unigol** | **10** |
| **Bodloni anghenion unigol** | **11** |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol** | **14** |
| **Bodloni prinder medrau ac anghenion cyflogwyr** | **16** |
| **Paratoi ar gyfer rhyddhau ac ailsefydlu** | **18** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **21** |

**Atodiadau**

Atodiad 1: Poblogaeth yr Oedolion sy’n Troseddu yng Nghymru

Atodiad 2: Enghreifftiau o arfer dda yn y ddalfa

Atodiad 3: Enghreifftiau o arfer dda yn y gymuned

Atodiad 4: Rhestr termau

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a'r thîm yr arolygu**

## Cyflwyniad

1 Yn ei gylch gwaith ar gyfer 2008-2009, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn arfarnu dysgu troseddwyr ôl-18. Ni fu unrhyw adroddiadau cylch gwaith blaenorol gan Estyn ar y thema hon.

2 Nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (NOMS) eu cyd-ddisgwyliadau ar gyfer darparu dysgu a medrau i droseddwyr yn 'Dysgu Newid – Datblygu Sgiliau i Ostwng Aildroseddu yng Nghymru' (2007).

3 Yn 2008, cymerodd Estyn y cyfrifoldeb arwain, oddi wrth Ofsted, dros arolygu dysgu i droseddwyr yng Nghymru. Yn ystod 2008, arolygodd Estyn y dysgu mewn tri o'r pedwar carchar i ddynion yng Nghymru a chyfrannodd at arolygiad dan arweiniad Ofsted o garchar i ferched yn Lloegr sy'n dal merched o Gymru. Hefyd, arolygydd Estyn ddysgu i droseddwyr yn y gymuned, yn y pedair ardal prawf yng Nghymru. Gwnaethom hyn fel rhan o'r Arolygiadau Rheoli Troseddwyr dan arweiniad Gwasanaeth Prawf EM. Mae'r arolygiadau hyn o garcharau a'r gwasanaeth prawf wedi darparu'r brif ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

4 Gwnaethom hefyd arolygu colegau AB a sampl o ddarparwyr dysgu yn y gwaith. Cymerodd Estyn dystiolaeth gan NOMS Cymru a Gwasanaeth Carchardai EM yng Nghymru hefyd.

5 Prif ffocws y cylch gwaith yw edrych ar ansawdd a chysondeb rhaglenni dysgu i oedolion yng Nghymru sy'n troseddu a pherthynas y rhaglenni hyn â pholisïau dysgu Llywodraeth y Cynulliad.

6 Mae'r adroddiad cylch gwaith hwn hefyd yn nodi i ba raddau y mae dysgu a medrau troseddwyr yng Nghymru yn bodloni gofynion 'Dysgu Newid', a nodwyd uchod.

7 Yn benodol, mae'r adroddiad yn nodi:

- pa mor effeithiol y mae dulliau a systemau asesu o ran gwneud diagnosis o anawsterau ac anableddau dysgu unigol;
- ansawdd y gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (GCA) i bob troseddwr;
- ansawdd cynlluniau dysgu unigol troseddwyr, wedi'u seilio ar ganlyniadau asesu, er mwyn llywio penderfyniadau ar ymyriadau dysgu trwy gydol y ddedfryd;
- pa mor dda y mae rhaglenni dysgu'n bodloni anghenion unigol;
- i ba raddau y mae yna raglenni dysgu sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol troseddwyr;

- pa mor dda y mae rhaglenni dysgu yn bodloni prinder medrau ac anghenion cyflogwyr;
- effeithiolrwydd gwaith ailsefydlu, sy'n cefnogi cynnydd troseddwyr mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant; ac
- effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg a hyfforddiant ar gyfer troseddwyr.

8 Mae'r adroddiad yn cynnwys atodiad sy'n dangos enghreifftiau o arfer dda wrth ddarparu addysg a hyfforddiant ar gyfer troseddwyr.

9 Mae'r adroddiad yn cynnwys rhestr termau a allai fod yn anghyfarwydd i ddarllenydd lleyg.

## Cefndir

10 Mae dros 2,800 o ddynion yn cael eu dal mewn carchardai yng Nghymru a hyd at 400 o ferched o Gymru yn cael eu dal mewn carchardai yn Lloegr. Mae'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru yn goruchwylio dros 13,000 o droseddwyr ar hyn o bryd.

11 Mae pedwar carchar yng Nghymru ar gyfer dynion sy'n troseddu – CEM Caerdydd, Abertawe, Brynbuga/Prescoed a charchar Y Parc sy'n cael ei redeg dan gontract gan G4S. Nid oes unrhyw sefydliadau yng Nghymru ar gyfer merched sy'n troseddu.

12 Mae'r gwasanaeth prawf yng Nghymru wedi'i drefnu o gwmpas pedair ardal weinyddol sy'n ffurfio ffiniau gwasanaeth yr heddlu. Y rhain yw Gogledd Cymru, Dyfed-Powys, De Cymru a Gwent.

13 Mae'r ddarpariaeth dysgu a medrau i droseddwyr yn y ddalfa yng Nghymru yn cael ei chyflwyno bron yn gyfan gwbl gan weithwyr y Gwasanaeth Carchardai. Mae'r ddarpariaeth dysgu medrau sylfaenol i droseddwyr sy'n bwrw eu tymor yn y gymuned yn cael ei chyflwyno dan drefniadau cytundebol rhwng y pedair ardal prawf a darparwyr addysg lleol. Mae ardaloedd prawf, ar y cyd ag eraill, hefyd yn darparu nifer o ymyriadau, rhaglenni a gweithgareddau gwaith di-dâl sy'n cynnwys elfennau dysgu ac addysg. Mae sawl un o'r gweithgareddau hyn yn cynnig achrediad.

14 Mae NOMS Cymru yn ariannu dysgu a medrau i droseddwyr. Bydd hyn yn newid ym mis Ebrill 2009, pan gaiff y cyfrifoldeb ei drosglwyddo i APADGOS. Mae dyfodol y ddarpariaeth medrau sylfaenol ar gyfer troseddwyr ar brawf yn ansicr. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd unrhyw gytundeb y byddai cyllid ar gael ar gyfer y gwaith hwn o fis Mawrth 2009 ymlaen.

15 Mae cyswllt cryf rhwng troseddu, medrau llythrennedd, iaith a rhifedd gwael a chyflawniad isel a thriwantiaeth yn yr ysgol. Mae llawer o droseddwyr wedi cael profiadau gwael iawn yn yr ysgol ac wrth ddysgu ac nid oes ganddynt unrhyw brofiad o gyflogaeth sefydlog. Nid oes gan dros hanner y troseddwyr yn y DU gymwysterau o unrhyw fath, ac nid oes gan dros draean ohonynt y medrau darllen a ddisgwylir gan blentyn 11 oed. Mae rhagolygon cyflogaeth troseddwyr a chyn-droseddwyr yn is o lawer na rhagolygon y gymuned yn gyffredinol[1].

16 Amlygodd Gostwng Aildroseddu drwy Sgiliau a Chyflogaeth Llywodraeth y DU[2] y cysylltiad rhwng cyflogaeth ac aildroseddu.

17 Rhoddodd y strategaeth ostwng aildroseddu, ynghyd ag amddiffyn y cyhoedd, wrth wraidd gwaith carchardai a gwasanaethau prawf, gyda ffocws newydd ar hyfforddi troseddwyr a'i helpu i ddod o hyd i waith.

---

1 Gostwng Aildroseddu: Cynllun Gweithredu Cenedaethol, y Swyddfa Gartref, Gorffennaf 2004
2 *Gostwng Aildroseddu drwy Sgiliau a Chyflogaeth* – DfES, y Swyddfa Gartref, DWP, Rhagfyr 2005

## Prif ganfyddiadau

18 At ei gilydd, mae carchardai ac ardaloedd prawf yn cynnig ystod eang o ddewisiadau dysgu a chymwysterau. Maent yn cyflawni hyn trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae cyfleoedd da i lawer o droseddwyr ddod o hyd i gyflogaeth ar ddiwedd eu tymor carcharol. Lleiafrif ohonynt yn unig sy'n cymryd rhan mewn rolau yn gysylltiedig â gwaith na fyddant yn gwella eu rhagolygon cyflogaeth.

19 Mae bron pob carchar ac ardal brawf yn helpu troseddwyr i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Mae hyn yn helpu hunan-barch troseddwyr. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cofnodi'r cyflawniadau hyn yn ddigon da. Mae staff yn hyrwyddo agweddau ac ymddygiad cadarnhaol. Maent yn helpu troseddwyr i fyw bywydau iach a mwy boddhaus. Mewn ardaloedd prawf, mae staff yn helpu troseddwyr i ailgynefino yn eu cymunedau.

20 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth dysgu i droseddwyr yn gyffredinol dda. Mewn carchardai a lleoliadau prawf fel ei gilydd, mae gan reolwyr nodau clir ac mae cysylltiadau da â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae bron pob rheolwr yn rhagori ar ei dargedau perfformiad ar gyfer cyflawni gwobrau medrau sylfaenol a gwaith ac am helpu dysgwyr i ddod o hyd i swyddi y maent yn eu cadw. Nid yw rheolwyr mewn carchardai a gwasanaethau prawf yn rheoli presenoldeb yn ddigon da bob tro. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae cyllidebau dysgu a medrau ar gyfer troseddwyr yn cynnig gwerth boddhaol am arian.

21 Ar y cyfan, mae darparwyr yn rhoi sylw da i ystod o faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth ac i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Mae ganddynt bolisïau cyfle cyfartal da ar waith ac maent yn monitro'r rhain yn dda. Fodd bynnag, nid oes digon o ddarpariaeth ar gyfer y rheiny sydd â medrau sylfaenol gwael ac mae cyllid ar gyfer y ddarpariaeth prawf bresennol yn y dyfodol yn ansicr. Nid oes digon o ddarpariaeth ar gael yn yr iaith Gymraeg.

22 At ei gilydd, mae troseddwyr yn y ddalfa yn cael cymorth boddhaol ar ddiwedd eu dedfryd. Mae llawer o staff ailsefydlu yn paratoi troseddwyr yn dda ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r rhan fwyaf o staff carchardai a gwasanaethau prawf yn meithrin cysylltiadau defnyddiol â darparwyr allanol. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau â chwmnïau dysgu yn y gwaith a darparwyr allanol. Mewn sawl rhan o'r gymuned, mae darpariaeth gynhwysfawr i gael troseddwyr i mewn i waith neu ddysgu. Fodd bynnag, mae'r gwaith o drosglwyddo dogfennau rhwng y ddalfa a'r gymuned yn wael. Mae'r help sy'n cael ei roi i droseddwyr gan golegau addysg bellach yn amrywio.

23 Mae ansawdd lleoliadau gwaith di-dâl yn amrywio gormod ar draws yr ardaloedd prawf. Mae staff yn colli cyfleoedd i hyfforddi troseddwyr mewn medrau y mae galw amdanynt yn y farchnad lafur. Nid ydynt yn defnyddio digon ar wybodaeth am y farchnad lafur leol a chenedlaethol. Nid yw rheolwyr yn meithrin cysylltiadau digon da â chyflogwyr i alluogi troseddwyr di-waith i ddod o hyd i swyddi.

24 Nid oes gan droseddwyr yng Nghymru ddigon o fynediad at wasanaethau Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad (GCA). Hefyd, mae ansawdd ac argaeledd y gwasanaethau hyn yn amrywio gormod. Nid yw llawer o droseddwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd a'r cymorth sydd ar gael. Nid yw darparwyr yn gwneud digon i hyrwyddo manteision gwybodaeth a chyngor da.

25 Mae effeithiolrwydd asesiadau'n amrywio. Mae'r holl ddarparwyr yn asesu lefelau rhifedd a llythrennedd troseddwyr trwy ddefnyddio ystod o brofion. Maent yn cysylltu'r rhain â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Rhifedd a Llythrennedd Oedolion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn deall pa brofion y dylai troseddwyr eu cael. Nid yw anghenion y lleiafrif o droseddwyr, yn enwedig y rheiny sydd â'r anghenion dysgu mwyaf cymhleth, yn cael eu hasesu'n ddigon da. Mae hyn yn golygu nad yw'r dysgu a gynlluniwyd ar eu cyfer yn bodloni eu hanghenion bob tro.

26 Nid yw tiwtoriaid mewn carchardai ac yn y gwasanaethau prawf yn defnyddio Cynlluniau Dysgu Unigol (CDUau) yn gyson. Mae cynlluniau'n amrywio gormod o ran eu hansawdd. Yn y mwyafrif o achosion, lle mae gan droseddwyr gynlluniau dysgu, ychydig iawn o gysylltiadau sydd rhwng y rhain â chynllun eu dedfryd. Yn y gymuned, ychydig iawn o gydlyniad cyffredinol sydd mewn dysgu i droseddwyr ar draws y gwahanol asiantaethau.

## Argymhellion

**Er mwyn gwneud cynnydd ar lefel genedlaethol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 egluro'r trefniadau ariannu ar gyfer y ddarpariaeth medrau sylfaenol i ddysgwyr sy'n cwblhau eu dedfrydau yn y gymuned ar ôl mis Ebrill 2009, a

A2 gwella mwy ar ansawdd dysgu a medrau i droseddwyr mewn carchardai ac ar brawf.

**Er mwyn gwneud cynnydd ar lefel leol, dylai'r holl ddarparwyr:**

A3 sicrhau bod gweithdrefnau asesu effeithiol ar waith ar gyfer anghenion llythrennedd, iaith a rhifedd, wedi'i cysylltu â'r broses gynllunio, ac sy'n cynnwys gwneud diagnosis o ddysgwyr ag anghenion a/neu anableddau dysgu;

A4 gwella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau GCA fel bod yr holl droseddwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd am ddysgu, medrau a gwaith a'r cymorth sydd ar gael iddynt;

A5 sicrhau bod gan yr holl droseddwyr CDU o ansawdd da, wedi'i gysylltu â chynllun eu dedfryd, sy'n cydlynu'r holl waith sy'n cael ei wneud gan wahanol asiantaethau;

A6 sicrhau bod troseddwyr sydd ag anghenion llythrennedd, iaith a rhifedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt;

A7 defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur a chysylltiadau gyda chyflogwyr yn well er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth a chael troseddwyr i mewn i waith;

A8 sicrhau pan fydd troseddwyr yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol, bod y cyflawniadau ychwanegol hyn yn cael eu cofnodi'n llawn;

A9 cynyddu nifer yr ymyriadau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg;

A10 gwella'r broses o drosglwyddo dogfennau rhwng gwahanol asiantaethau a sicrhau trosglwyddo esmwyth rhwng dysgu yn y ddalfa a dysgu yn y gymuned; a

A11 gwella presenoldeb mewn darpariaeth dysgu a medrau yn y ddalfa ac yn y gymuned.

## Asesu anghenion dysgu troseddwyr

### Yn y ddalfa

27 Mewn carchardai, mae staff yn asesu troseddwyr pan fyddant yn cyrraedd gyntaf. Fodd bynnag, mae ansawdd yr asesiadau hyn yn amrywio. Yna, mae bron pob troseddwr yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu i'w helpu i ddeall yr hyn y dylai ei ddisgwyl o'i gyfnod yn y carchar.

28 Mewn un carchar, mae staff gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (GCA) yn profi medrau sylfaenol bron pob troseddwr. Mae staff yn nodi'r troseddwyr hynny nad ydynt yn siarad Saesneg yn gyflym iawn. Yn yr achosion hyn, maent yn trefnu iddynt gael cymorth cyfieithu ar unwaith, yn aml trwy wneud defnydd da o fedrau iaith a chefndiroedd troseddwyr eraill.

29 Yn yr un carchar, mae staff GCA yn cofnodi gwybodaeth asesu ar gronfa ddata hynod ddefnyddiol. Maent yn defnyddio'r gronfa ddata hon yn dda i sicrhau eu bod yn asesu'r holl newydd ddyfodiaid yn gynnar ac yn monitro eu cynnydd. Yna, mae tiwtoriaid yn asesu'r troseddwyr sy'n mynd ymlaen i fynychu'r adran dysgu a medrau yn llawnach. Maent hefyd yn rhoi asesiad diagnostig llawn i'r rheiny sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu.

30 Mewn carchar arall, mae'r asesiad cychwynnol yn drylwyr, yn cael ei gofnodi'n dda a'i ddefnyddio'n effeithiol i lunio cynlluniau dysgu unigol.

31 Nid oes gan un carchar strategaeth ddigon effeithiol ar gyfer profi ac asesu medrau sylfaenol yr holl droseddwyr ar y rhaglen sefydlu. Nid yw digon o droseddwyr yn mynd ymlaen i gael asesiad diagnostig. Nid yw staff dysgu a medrau yn nodi anghenion dysgu ychwanegol nac arddulliau dysgu yn ddigon da.

### Yn y gymuned

32 Yn y gwasanaeth prawf, mae bron pob rheolwr troseddwyr yn sgrinio troseddwyr ar ddechrau eu dedfryd. Mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio'r offeryn sgrinio argymelledig[3]. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol o'u hanghenion o ran medrau. Fodd bynnag, nid yw'n dweud pa lefel y mae'r troseddwr arni. Nid yw digon o reolwyr troseddwyr yn atgyfeirio troseddwyr am brawf manylach. Mae hyn yn golygu na allant fod yn siŵr y bydd gan droseddwyr y medrau cywir ar gyfer y rhaglenni y maent yn eu cynllunio ar eu cyfer.

33 Ym mhob un o'r ardaloedd prawf, nid oes gan y rhan fwyaf o droseddwyr fynediad digonol at asesiadau ar-lein. Mae hyn am nad oes gan y canolfannau prawf yr adnoddau TG angenrheidiol.

34 At ei gilydd, nid yw'r rhan fwyaf o reolwyr troseddwyr yn trosglwyddo canlyniadau asesiadau i ymyriadau na staff rhaglenni fel mater o drefn. Hyd yn oed pan fyddant

[3] Cylchlythyr Prawf PC13/2007 – cyflwyno offeryn sgrinio medrau newydd: *First Move – initial skills checker*

yn gwneud hynny, nid yw llawer o’r staff hyn yn deall yr hyn y maent yn ei olygu yn ddigon da. Mae hyn yn golygu nad yw troseddwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt bob amser.

35 Mewn un ardal brawf, mae’r prawf sgrinio a’r profion asesu cychwynnol ar gael yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae rheolwyr troseddwyr yn atgyfeirio’r rheiny sydd angen dysgu medrau sylfaenol i ddosbarthiadau. Ar adegau, mae tiwtoriaid medrau sylfaenol yn y dosbarthiadau hyn yn ailadrodd yr un asesiad. Mae hyn yn rhwystredig i’r dysgwr ac yn wastraffus o ran adnoddau. Mewn ychydig iawn o sesiynau, mae staff medrau sylfaenol yn cynnal asesiad diagnostig llawn.

36 Mewn ardal brawf arall, mae tiwtoriaid yn asesu cymhelliant yn dda. Maent yn defnyddio’r cyfweliad cychwynnol i holi troseddwyr am eu cymwysterau a’u medrau.

## Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

### Yn y ddalfa

37 Mewn rhaglenni sefydlu, mae bron pob troseddwr yn cael gwybodaeth am ystod y gwaith a'r dysgu sydd ar gael yn y carchar.

38 Mae bron pob tiwtor sefydlu yn creu awyrgylch anffurfiol, sy'n gwneud i ddysgwyr deimlo'n gartrefol. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael ac mae rhai'n manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn. Maent yn cyfuno hyfforddiant galwedigaethol neu waith, dosbarthiadau nos a dysgu hyblyg. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu profiad eang o ddysgu. Mae staff gweithdai hefyd yn annog dysgwyr i fynychu dosbarthiadau addysg er mwyn gwella eu medrau.

39 Mewn un carchar, mae staff GCA yn defnyddio holiadur er mwyn canfod am brofiad blaenorol y troseddwr. Mae hyn yn ddefnyddiol o ran nodi eu medrau presennol. Fodd bynnag, mewn sawl achos, nid yw staff GCA yn casglu ymatebion digon manwl. Mae hyn yn golygu bod angen cyfweliad pellach ar y troseddwyr hyn cyn y gall tiwtoriaid deilwra dysgu i fodloni eu hanghenion unigol.

### Yn y gymuned

40 Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd prawf, nid yw troseddwyr yn cael digon o gyswllt ag ymgynghorwyr arbenigol. Nid ydynt yn cael digon o gymorth i oresgyn rhwystrau, i wneud cynlluniau realistig nac i symud ymlaen i ddewisiadau addysgu, hyfforddiant a chyflogaeth eraill. Mae rhai troseddwyr yn gwneud cynlluniau afrealistig ac nid yw eu tiwtoriaid na rheolwyr troseddwyr yn eu herio.

41 Nid yw llawer o'r ardaloedd prawf yn cynllunio'r ddigon da ar gyfer troseddwyr sy'n tynnu at ddiwedd eu dedfryd. Er bod cyngor ac arweiniad gyrfaoedd ar gael pan fydd troseddwyr yn cwblhau eu hymyriadau dysgu, nid yw digon o diwtoriaid yn eu hatgyfeirio i gael y cymorth hwn.

42 Mewn rhai achosion, lle mae tiwtoriaid yn cynnig GCA, nid ydynt yn ymchwilio i anghenion dysgwyr yn ddigon manwl nac yn gwirio eu dealltwriaeth yn ddigon da. Nid ydynt yn atgyfeirio dysgwyr i gael arweiniad mwy priodol ar yrfaoedd.

43 Mae rhai tiwtoriaid medrau sylfaenol yn rhoi GCA da, fel esbonio sut i wneud cais am swydd yn gyrru wagen fforch godi neu roi cymorth gyda thai a dyled.

44 Mewn un ardal, mae angen mwy o gymorth ar droseddwyr i'r helpu i gynllunio eu camau nesaf. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r staff prawf sy'n eu hannog i wneud apwyntiadau gydag ymgynghorwyr gyrfaoedd. Mae llawer o oruchwylwyr gwaith di-dâl yn rhoi cyngor anffurfiol. Mae hyn yn helpu troseddwyr i ailsefydlu yn eu cymunedau. Mae hefyd yn gwella eu hyder a'u medrau cymdeithasol.

## Cynlluniau dysgu unigol

### Yn y ddalfa

45 Mewn llawer o garchardai, mae tiwtoriaid yn defnyddio CDUau yn dda, gan wneud defnydd da o ganlyniadau profion a gwybodaeth mewn proffiliau dysgwyr i lywio eu gwaith cynllunio. Yn yr enghreifftiau gorau, mae gan ddysgwyr gynlluniau dysgu unigol sy'n nodi nodau dysgu, targedau a osodwyd, a'r camau gweithredu sydd eu hangen, ynghyd â graddfeydd amser priodol.

46 Ychydig iawn o diwtoriaid mewn carchardai sy'n defnyddio gwybodaeth o gynllun y ddedfryd wrth osod targedau dysgu. Er bod y wybodaeth hon ar gael, ynghyd â gwybodaeth o asesiadau eraill, nid yw tiwtoriaid yn ei defnyddio i lywio CDUau fel mater o drefn.

47 Mewn gweithdai yn y carchar, nid yw staff bob amser yn cynnig digon o gymorth dysgu i'r rheiny sydd ei angen. Nid yw llawer ohonynt yn edrych ar ganlyniadau asesiadau pan fydd troseddwyr yn dechrau hyfforddiant neu waith, ac nid yw rhai staff yn deall eu gwerth. Mae hyn yn golygu eu bod yn colli cyfleoedd i gyfateb dysgu i anghenion unigol ambell waith, ac o ganlyniad, nid yw rhai troseddwyr yn gweithio ar y lefel gywir.

48 Nid yw un carchar wedi datblygu'r defnydd o CDUau yn ddigon da. Mewn llawer o achosion, nid yw cynlluniau'n nodi'r camau y mae angen i ddysgwyr eu cymryd i wella eu dysgu, yn glir.

### Yn y gymuned

49 Mewn ardaloedd prawf, mae staff ymyriadau'n defnyddio Cofnodion Atgyfeirio Unigol (CAUau) i gynllunio dysgu ar gyfer troseddwyr. Fodd bynnag, nid yw staff yn llenwi llawer o'r rhain yn ddigon da ac ychydig o fewnbwn a geir gan ddysgwyr. Nid yw canlyniadau asesiadau'n llywio'r gwaith o gynllunio llawer o ymyriadau addysgu, hyfforddiant a chyflogaeth.

50 Ar draws yr holl ardaloedd prawf, ychydig iawn o gynlluniau dysgu cydlynol sydd ar waith. Nid yw staff yn eu defnyddio'n effeithiol i osod amcanion clir, cofnodi cyflawniad a chynnydd, nac i gydlynu dysgu. Ychydig iawn o gyfeiriad sydd at amcanion cynllunio dedfryd ac ychydig iawn o'r gwaith a wneir gan y gwahanol asiantaethau sy'n cael ei gydlynu. Mae hyn yn golygu nad oes gan reolwyr troseddwyr drosolwg o'r cynnydd y mae troseddwyr yn ei wneud. Nid yw troseddwyr eu hunain yn gwybod pa mor dda y maent yn cyflawni.

## Bodloni anghenion unigol

### Yn y ddalfa

51 Mewn carchardai, mae mynediad at addysg a hyfforddiant ar gael i'r holl droseddwyr yn gyffredinol. Mae cyfranogiad troseddwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn dysgu a gwaith yn gyffredinol dda. Ar y cyfan, mae staff yn monitro ac yn rheoli hyn yn dda.

52 Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio ystod o arddulliau addysgu effeithiol ac arloesol. Mewn rhai dosbarthiadau, mae tiwtoriaid yn gwneud defnydd effeithiol iawn o fyrddau gwyn electronig. Mewn un carchar, er enghraifft, mae rhaglen arbennig i helpu dysgwyr dyslecsig. Mae bron pob un o'r dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen hon yn cyflawni'n dda. Maent yn gwneud gwelliannau sylweddol mewn cyfnod byr iawn o amser.

53 Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi cymorth da iawn i ddysgwyr sydd â medrau rhifedd a llythrennedd gwael, a'r rheiny sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mewn un carchar, mae staff a dysgwyr yn llunio arwyddion a chyfarwyddiadau arbennig ar gyfer y dysgwyr hyn. Fodd bynnag, mewn un carchar, nid oes darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill ddigonol i ddysgwyr wneud cynnydd. Nid yw staff yn asesu anghenion y dysgwyr hyn yn ddigon da. Mae'r cynlluniau dysgu unigol ar gyfer y dysgwyr hyn o ansawdd gwael.

54 Nid oes digon o lyfrau, papurau newydd na geiriaduron ar gael yn y prif ieithoedd tramor yn llyfrgelloedd y rhan fwyaf o'r carchardai.

55 Ym mron pob carchar, mae tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr ag anableddau yn effeithiol. Er enghraifft, mae dysgwyr sydd â nam gweledol yn cael deunyddiau dysgu mewn Braille. Mae amrywiaeth dda o lyfrau sain yn llyfrgelloedd y rhan fwyaf o'r carchardai.

56 Mae llawer o staff addysg gorfforol yn bodloni anghenion ystod eang o ddysgwyr yn dda, gan gynnwys dysgwyr hŷn, y rheiny sydd ag anableddau, a'r rheiny sydd â phroblemau iechyd.

57 Nid yw'r rhan fwyaf o'r carchardai'n hyrwyddo'r Gymraeg na diwylliant Cymru'n ddigon da. Nid yw tiwtoriaid yn adnabod siaradwyr Cymraeg fel mater o drefn. Mae nifer yr arwyddion dwyieithog yn gyfyngedig yn y rhan fwyaf o'r carchardai hefyd.

58 Mewn un carchar, mae'r cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu penodol yn golygu bod staff yn adnabod y dysgwyr hynny trwy symbol ar y gofrestr. Maent yn cofnodi anghenion penodol dysgwyr yn eu CDU. Yn y carchar hwn, mae staff wedi gwella eu hymwybyddiaeth o anawsterau dysgu, fel dyslecsia.

59 Mewn carchar arall, nid yw staff addysg yn sgrinio troseddwyr fel mater o drefn wrth iddynt ymgeisio am gyrsiau ymddygiad troseddol. O ganlyniad, mae troseddwyr sydd â medrau llythrennedd gwael yn cael trafferth gydag elfennau darllen ac ysgrifennu'r cyrsiau hyn.

60 Mae un carchar wedi cyflwyno Gweithdai Amrywiaeth Diwylliannol defnyddiol, lle mae dysgwyr yn gwella eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill. Mae cwnsleriaid y carchar hefyd wedi cydweithio'n effeithiol ag unigolion er mwyn lleihau ymddygiad hiliol neu ymosodol.

**Yn y gymuned**

61 Mae'r holl ardaloedd prawf yn bodloni agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol yn dda. Maent yn rhoi sylw da iawn i anghenion grwpiau penodol.

62 Mae ardaloedd prawf yn gweithredu trwy gydol y flwyddyn. Mae prosesau cynllunio'n ystyried anghenion troseddwyr sydd ag anghenion gofal plant yn ystod gwyliau ysgol. Caiff rhai ymyriadau eu cynnal ar benwythnosau a chyda'r nos i'r rheiny sy'n gweithio yn ystod y dydd. Mae staff yn rhoi ystyriaeth dda i ferched unigol sy'n gweithio mewn amgylcheddau gwrywaidd. Mae staff yn gweithio'n galed i gadw troseddwyr yn eu swyddi presennol.

63 Mae anghenion troseddwyr sy'n gwneud gwaith di-dâl yn cael eu bodloni'n dda. Mae staff ar y rhaglenni hyn yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion iechyd troseddwyr wrth ddyrannu gweithleoedd. Maent yn hyblyg o ran bodloni ceisiadau troseddwyr i weithio y tu allan ac i wneud gwaith llaw. Mae staff prawf yn esbonio'r rheolau ynghylch torri cytundebau'n glir ac mae troseddwyr yn deall y rhain yn dda. Mae staff yn gwneud defnydd da o gyfieithwyr ar gyfer y rheiny nad ydynt yn siarad Saesneg yn dda. Mae llawer o diwtoriaid yn rhoi ystyriaeth dda i agweddau ar amgylchiadau'r troseddwr.

64 Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid rhaglenni achrededig yn ceisio rhoi ystyriaeth dda i anghenion unigol troseddwyr. Maent yn addasu taflenni a siartiau codi ac yn rhoi cyfarwyddiadau mewn ffordd wahanol. Mewn un ardal, mae troseddwyr yn llofnodi dogfen am 'hawliau a chyfrifoldebau' yn ystod y rhaglen sefydlu. Fodd bynnag, mae'n rhy gymhleth i lawer o droseddwyr sydd â medrau sylfaenol gwael ei deall.

65 Mae mwyafrif y tiwtoriaid prawf yn gwybod ble i atgyfeirio dysgwyr sydd â dyslecsia. Mae cymorth iaith ar gael i droseddwyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Mewn rhai prosiectau gwaith di-dâl, mae deunyddiau iechyd a diogelwch ar gael mewn Pwyleg. Mewn un darparwr medrau sylfaenol, mae tiwtoriaid yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac yn cael cymorth arbenigol i ddysgwyr Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill.

66 Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r gwasanaeth prawf yn cynnig digon o gymorth medrau sylfaenol cyn nac yn ystod rhaglenni. Nid yw digon o droseddwyr yn gwybod y gallant ddefnyddio 20% o gyfnod eu dedfryd i wneud gwaith di-dâl i fynychu dosbarthiadau medrau sylfaenol.

67 Nid oes digon o staff prawf ar gael i ddarparu ymyriadau yn yr iaith Gymraeg. Mewn un ardal, un tiwtor yn unig yn y tîm rhaglenni achrededig sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn golygu nad yw rhai troseddwyr, sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf, yn gallu cymryd rhan mewn sesiynau grŵp neu unigol hyd eithaf eu gallu.

68 Mewn un ardal, mae rheolwyr wedi meithrin cysylltiadau da â grwpiau gwirfoddol ac maent yn defnyddio'r rhain yn dda i gefnogi troseddwyr ag anableddau. Maent hefyd yn cefnogi sipsi-deithwyr trwy gysylltu'n dda â darpariaeth medrau sylfaenol yr awdurdod lleol.

## Datblygiad personol a chymdeithasol

### Yn y ddalfa

69 Yn yr holl garchardai, mae staff yn darparu ystod o raglenni cyfoethogi a datblygiad personol. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau dinasyddiaeth, drama, coginio a hylendid bwyd, celf, cerddoriaeth ac ioga. Mae troseddwyr hefyd yn dysgu i weithio'n annibynnol ac yn astudio ystod eang o raglenni dysgu o bell, ar Lefel 3 neu'n uwch.

70 Yn y sesiynau gorau, mae'r holl ddysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Mae bron pob dysgwr yn dangos lefel uchel o gymhelliant ac yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'u hamser. Mewn dosbarthiadau celf, mae dysgwyr yn gwerthfawrogi ac yn parchu gwaith ei gilydd. Mae dysgwyr ar gyrsiau llenyddiaeth Saesneg yn disgrifio sut y mae dysgu sut i drafod a gwerthfawrogi safbwyntiau pobl eraill ar waith nofelydd wedi'u helpu i wrando ar farn pobl eraill a'i gwerthfawrogi.

71 Mae llawer o droseddwyr yn datblygu agweddau ac ymddygiad mwy aeddfed. Maent yn dangos pryder tuag at bobl a diwylliannau eraill. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cydnabod y gallant leihau'r perygl o aildroseddu trwy wella eu rhagolygon cyflogaeth a dysgu medrau newydd.

72 Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn dda ac yn cymhwyso'r rhain mewn ystod o gyfleoedd newydd. Maent yn defnyddio eu hamser yn y ddalfa i ennill medrau a chymwysterau newydd.

73 Mae adrannau addysg gorfforol y rhan fwyaf o garchardai yn rhoi cyfle da i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a lefelau ffitrwydd personol.

74 Yn y rhan fwyaf o garchardai, nid yw cynlluniau gweithredu ac adolygiadau cynnydd yn cofnodi llawer o'r cyflawniadau ychwanegol hyn yn ddigon clir. Nid oes gan diwtoriaid ddigon o fanylion am gymwysterau blaenorol a dyheadau dysgwyr. Nid ydynt yn annog dysgwyr i fyfyrio ar ddysgu na chofnodi'r hyn y maent wedi'i ddysgu.

### Yn y gymuned

75 Mewn ardaloedd prawf, mae bron pob aelod o staff ymyriadau yn meithrin perthynas waith dda â throseddwyr. Maent yn dangos empathi ac mae lefelau uchel o gyd-barch. Mae staff ymyriadau yn ddelfrydau ymddwyn da. Mae hyn yn helpu troseddwyr i ddatblygu ymddygiad priodol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn sicrhau bod troseddwyr yn rhoi sylw da i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth.

76 Mae goruchwylwyr mewn gwaith di-dâl yn helpu troseddwyr i wella eu hyder ac i wella eu medrau cymdeithasol. Maent yn darparu cyngor anffurfiol sy'n helpu troseddwyr i ailintegreiddio'n well yn eu cymunedau.

77 Mae'r rhan fwyaf o droseddwyr yn myfyrio'n gadarnhaol ar yr effaith y mae gwaith di-dâl yn ei chael ar eu bywydau a'r cyfyngiadau y mae'n eu rhoi ar eu hamser hamdden.

78 Mae dysgwyr mewn gwaith di-dâl hefyd yn ennill ystod o fedrau y gallant eu defnyddio yn eu cartrefi eu hunain, gan gynnwys paentio ac addurno a garddio.

79 Mae staff ar raglenni gwaith di-dâl yn llunio prosiectau da sy'n datblygu gwaith tîm, medrau cyfathrebu a datrys problemau.

80 I rai troseddwyr, mae'r arfer o godi ar gyfer eu gwaith di-dâl yn newid eu hagwedd tuag at waith mewn modd cadarnhaol.

81 Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd prawf, mae llwyddiant yn cael ei ddathlu'n dda. Mae staff yn cynnal seremonïau gwobrwyo ar gyfer troseddwyr er mwyn cydnabod eu cyflawniadau. I lawer o droseddwyr, hwn yw'r tro cyntaf iddynt ennill gwobr.

82 Mae llawer o ardaloedd prawf yn cael sylw da yn y cyfryngau i droseddwyr sy'n cymryd rhan mewn prosiectau gwaith di-dâl llwyddiannus. Mae hyn yn helpu eu cymhelliant ac yn eu hannog i ailintegreiddio yn eu cymunedau.

## Bodloni prinder medrau ac anghenion cyflogwyr

### Yn y ddalfa

83 Mae bron pob gweithdy mewn carchardai yn datblygu medrau sy'n berthnasol i'r gweithle. Mae llawer o droseddwyr yn datblygu medrau defnyddiol fel prydlondeb, manwl gywirdeb a gweithio fel aelod o dîm. Mewn un carchar, mae troseddwyr yn trafod pwysigrwydd ymddiriedaeth a dibynadwyedd. Maent yn ystyried beth fydd barn darpar gyflogwyr amdanynt fel cyn-droseddwyr, ac fel y bydd angen iddynt ennill ymddiriedaeth dros amser.

84 Mae troseddwyr yn ennill achrediad mewn sawl maes, er enghraifft, mewn glanhau diwydiannol neu arlwyo. Mae'r rhain yn berthnasol i fyd gwaith. Mae barbwyr dan hyfforddiant yn ennill medrau defnyddiol mewn trin gwallt. Mewn sawl carchar, mae troseddwyr sy'n dysgu yn gweithio'n dda tuag at ddyfarniadau gosod brics neu baentio ac addurno. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da.

85 Mewn sawl ardal, mae troseddwyr yn gadarnhaol ynghylch eu dysgu. Maent yn frwdfrydig ynghylch potensial cyflogaeth y medrau y maent yn eu datblygu. Maent yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i symud ymlaen ymhellach ac i gwblhau dyfarniadau. Mae'r rhan fwyaf o droseddwyr yn awyddus i ddefnyddio eu medrau yn y gwaith ac mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth realistig o anghenion y farchnad lafur.

86 Fodd bynnag, nid oes gan bob troseddwr ragolygon da o ran dod o hyd i swydd sy'n gysylltiedig â'i hyfforddiant ar ôl cael ei ryddhau. Mae'n bosibl eu bod yn defnyddio offer sydd wedi dyddio neu na allant ennill ystod digon eang o fedrau a phrofiad i gwblhau cymhwyster. Mae staff carchardai'n ceisio newid y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn ymateb yn ddigon buan i amgylchiadau lleol.

87 Mae troseddwyr sy'n dysgu am TG, nad yw llawer ohonynt wedi defnyddio cyfrifiaduron yn flaenorol, yn cyflawni'n dda ac yn cyrraedd safon uchel. Mae pob un ohonynt yn gweithio'n ddygn, gan ganolbwyntio yn ystod sesiynau, ac maent yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddefnyddio cymwysiadau prosesu geiriau a chronfeydd data. Maent yn ennill cymwysterau CLAIT ar gyfradd dda.

88 Mae llawer o droseddwyr yn cael cyfleoedd da i wella eu medrau sylfaenol. Mae tiwtoriaid yn aml yn darparu'r cymorth hwn cyn i droseddwyr symud ymlaen i hyfforddiant galwedigaethol. Mae staff dysgu a medrau hefyd yn cefnogi troseddwyr sy'n gweithio mewn gweithdai ac sydd am wella eu medrau sylfaenol yn y gwaith.

89 Yn yr achosion gorau, mae aseiniadau medrau allweddol yn berthnasol i ddiddordebau galwedigaethol troseddwyr. Mae rhai troseddwyr yn ychwanegu at y medrau y maent yn eu hennill o weithdai neu garchardai eraill er mwyn gwella eu rhagolygon swydd. Fodd bynnag, mae un neu ddau ohonynt yn ailadrodd dysgu y maent wedi'i wneud eisoes.

90 Ar y cyfan, mae uwch reolwyr wedi datblygu hyfforddiant medrau da i droseddwyr, sydd bellach yn gallu ennill achrediad mewn sawl maes. Fodd bynnag, mae staff yn colli cyfleoedd o gwmpas y carchar i hyfforddi dysgwyr mewn medrau y mae galw mawr amdanynt, fel arlwyo.

91 At ei gilydd, mae rheolwyr yn rhoi ystyriaeth dda i wybodaeth am y farchnad lafur genedlaethol wrth ddatblygu eu darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o garchardai wedi meithrin cysylltiadau digon da â chyflogwyr lleol.

**Yn y gymuned**

92 Mae ardaloedd prawf yn cynnig ystod eang o raglenni dysgu a chymwysterau i lawer o droseddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys saernïaeth, garddio, adeiladu, TGCh, medrau pobi, cadw mewn warws, gyrru wagen fforch godi, drama a ffotograffiaeth neu waith yn y sector gofal. Maw sawl troseddwr yn mynd ymlaen i wirfoddoli mewn gwahanol brosiectau.

93 Yn y dosbarthiadau medrau sylfaenol yn y gwasanaeth prawf, mae rhai troseddwyr yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu. Maent yn datblygu medrau cyfrifiadurol sylfaenol gan ddefnyddio deunyddiau dysgu ar y we. Mae rhai ohonynt yn dysgu sut i ysgrifennu cynllun busnes ar gyfer busnes bach.

94 Mewn llawer o achosion, nid yw troseddwyr yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau TG sy'n gwella eu rhagolygon swydd. Nid oes ganddynt fynediad digonol at offer TG. Nid ydynt yn gwybod sut i gael mynediad at gyfleusterau chwilio am swyddi ar-lein, ac ychydig iawn ohonynt sy'n ymwybodol o Gyrfa Cymru ar-lein.

95 Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw tiwtoriaid yn cynllunio dysgu, ac mae troseddwyr yn ailadrodd technegau y maent eisoes wedi'u dysgu.

96 Mae ansawdd y lleoliadau gwaith di-dâl yn amrywio ar draws ardaloedd prawf. Mewn un ardal brawf, mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau gwaith di-dâl yn greadigol ac o ansawdd da. Fodd bynnag, nid yw tua hanner y lleoliadau gwaith di-dâl yn cynnig digon o gyfleoedd creadigol na heriol. Nid ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigon da i anghenion y farchnad lafur leol. Mae cyfleoedd i ddatblygu neu gynyddu lefelau medrau presennol yn rhy gyfyng.

97 Mewn rhai achosion, mae unigolion yn cymryd rhan mewn lleoliadau gwaith sy'n manteisio i'r eithaf ar eu medrau uwch. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw staff yn rhoi digon o ystyriaeth i'r hyn y gall troseddwyr ei wneud eisoes, na'u nodau cyffredinol wrth gynllunio gyrfa.

98 Mae troseddwyr yn cael cyflwyniad da i waith di-dâl, lle maent yn dysgu am iechyd a diogelwch a'r rheolau yn ymwneud â phresenoldeb. Mae staff yn cynnal asesiadau risg da cyn i ddysgwyr fynd ar y safle. Mae troseddwyr sy'n dysgu yn gallu cyflawni cymwysterau iechyd a diogelwch cyffredinol ac arbenigol. Mae hyn yn gwella eu rhagolygon swydd.

## Paratoi ar gyfer rhyddhau ac ailsefydlu

### Yn y ddalfa

99 Ar y cyfan, mae troseddwyr yn cael cymorth boddhaol wrth gael eu rhyddhau. Mae llawer o staff ailsefydlu yn helpu troseddwyr i lunio CVau ac ysgrifennu llythyrau. Mae staff y Ganolfan Byd Gwaith yn darparu cyfleusterau chwilio am swyddi ac apwyntiadau yn y gymuned trwy gynllun carlam. Mae hyn yn galluogi trosglwydd esmwyth i waith neu hyfforddiant ar ôl cael eu rhyddhau. O bryd i'w gilydd, mae staff ailsefydlu'n cyd-drafod â chyflogwyr yn llwyddiannus er mwyn cadw swyddi'r troseddwyr hynny sydd wedi cael dedfryd fer ar agor.

100 Mae llawer o staff ailsefydlu yn meithrin cysylltiadau â chyflogwyr lleol cefnogol sy'n recriwtio cyn-droseddwyr.

101 Nid oes gan lawer o droseddwyr yn y ddalfa ddigon o fynediad at wasanaethau GCA o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mewn un carchar ceir mynediad da at ystod o wasanaethau gan y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru a Remploy. Mae staff y Ganolfan Byd Gwaith yn ymweld â'r carchar yn rheolaidd fel bod troseddwyr yn gwybod am swyddi gwag yn eu hardaloedd lleol. Mewn carchar arall, mae ymgynghorwyr Gyrfa Cymru yn cynnig cyngor diduedd ar yrfaoedd. Mae hyn yn helpu carcharorion i nodi'r cyfleoedd a allai fod yn fwyaf defnyddiol iddynt. Fodd bynnag, nid yw ymgynghorwyr yn integreiddio manylion y gwaith a wneir trwy'r gwasanaethau hwn yn CDUau dysgwyr na'u cynlluniau ailsefydlu.

102 Mewn ychydig iawn o achosion, mae staff yn defnyddio trefniadau Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro yn llwyddiannus. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i fynychu cyfweliadau ar gyfer swyddi neu hyfforddiant yn y gymuned.

103 Mae'r rhan fwyaf o'r carchardai'n defnyddio cysylltiadau defnyddiol â darparwyr allanol. Er enghraifft, mae un carchar yn gweithio mewn partneriaeth â choleg lleol i ddarparu cyrsiau Cyswllt Dysgu. Mae troseddwyr a'r gymuned ehangach yn cael budd o hyn. Mae'n darparu gweithgaredd bwriadus ar gyfer y dysgwr ac yn cynyddu ei siawns o ddod o hyd i waith.

104 Mae'r broses o drosglwyddo dogfennau rhwng y ddalfa a'r gymuned yn wael. Mewn rhai achosion, nid yw tiwtoriaid yn sicrhau bod portffolios dysgwyr yn mynd gyda nhw wrth i droseddwyr drosglwyddo i'r gymuned. Mae hyn yn golygu bod troseddwyr ar drwydded yn ailadrodd asesiadau a gwaith y maent wedi'u gwneud eisoes. Mae hyn yn eu diysgogi ac yn arafu eu cynnydd.

105 Mae un carchar wedi cynnal digwyddiadau ailsefydlu rheolaidd iawn yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae amlder y digwyddiadau hyn wedi lleihau. Mae hyn yn golygu nad yw carcharorion yn cael digon o gymorth wrth barhau gyda dysgu a medrau neu gyflogaeth wedi iddynt adael y carchar.

## Yn y gymuned

106 Mewn llawer o ardaloedd, mae darpariaeth gynhwysfawr i gael troseddwyr i mewn i waith neu ddysgu. Mae partneriaid prawf yn aml yn cynnig ystod dda o gymwysterau o fedrau sylfaenol i gymwysterau galwedigaethol, fel cymorth cyntaf, gyrru wagen fforch godi, iechyd a diogelwch a thystysgrif safle'r diwydiant adeiladu. Mewn llawer o achosion, mae troseddwyr yn datblygu medrau fel gweithio mewn timau, cyfathrebu â phobl eraill a datrys problemau. Fodd bynnag, nid yw staff yn cadw cofnod ffurfiol o'r medrau hyn nac yn eu holrhain.

107 Mae lledaeniad da o ddosbarthiadau medrau sylfaenol i droseddwyr ledled yr holl ardaloedd prawf. Mae hyn yn helpu troseddwyr nad ydynt yn ddigon hyderus i ddefnyddio darpariaeth brif ffrwd, i gymryd eu camau cyntaf tuag at ddysgu. Fodd bynnag, mae'r cyllid ar gyfer y ddarpariaeth hon yn y dyfodol yn ansicr.

108 Mae ardaloedd prawf yn cysylltu'n dda â darparwyr allanol er mwyn gwella canlyniadau cyflogaeth i droseddwyr. Er enghraifft, mewn un ardal, mae'r rhaglen Dechrau Newydd[4] wedi arwain at 23 o 45 o gyfranogwyr yn symud i mewn i gyflogaeth dros gyfnod o naw mis.

109 Mae staff y gwasanaeth prawf hefyd yn gwneud defnydd da o wasanaethau Ardal Gyflogaeth[5]. Yma, mae cwmni dysgu yn y gwaith yn gweithio gyda chleientiaid 'anos eu helpu' er mwyn nodi a goresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag dod o hyd i waith cynaliadwy a'i gadw.

110 Mae'r cymorth y mae colegau addysg bellach yn ei rhoi i droseddwyr yn amrywio. Nid oes gan y grŵp sy'n eu cynrychioli yng Nghymru[6] strategaeth ar gyfer cefnogi troseddwyr sy'n dysgu.

111 Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o golegau'n ystyried ceisiadau gan ddysgwyr sydd wedi troseddu. Mae llawer o'r colegau hyn yn cyfweld ag ymgeiswyr ac yn cynnal asesiad risg o'u troseddau cyn iddynt gofrestru.

112 Mae gan y rhan fwyaf o golegau fesurau ar waith i alluogi troseddwyr i gael mynediad at ddysgu wedi iddynt gael eu derbyn ar gwrs. Mewn rhai achosion, nid yw troseddwyr yn gallu dilyn eu dewis yrfa oherwydd natur eu trosedd. Yn yr achosion hyn, mae'r coleg yn rhoi cyngor a chwnsela pellach iddynt.

113 Mae cyn-droseddwyr a'r rheiny sydd mewn perygl o droseddu yn dilyn cyrsiau mewn llawer o golegau. Mae'r rhain yn cynnwys Iechyd a Diogelwch, Cymorth Cyntaf, Paentio ac Addurno a Chynhyrchu a Weldio. Mae llawer o golegau yn ymgorffori medrau sylfaenol yn y cyrsiau er mwyn cefnogi'r dysgwyr hyn.

114 Mae gan rai colegau drefniadau partneriaeth ar waith gyda grwpiau sy'n cefnogi troseddwyr. Er enghraifft, mae un coleg yn gweithio gyda grŵp sydd â'r nod o ailsefydlu troseddwyr.

---

[4] Wedi'i seilio ar bartneriaeth gyda chwmni dysgu yn y gwaith a'r Ganolfan Byd Gwaith
[5] Menter gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i helpu pobl ddi-waith hirdymor sy'n byw yn rhoi o'r cymunedau mwyaf difreintiedig i ddod o hyd o gyflogaeth gynaliadwy a'i chadw.
[6] Fforwm

115 Mae un ardal brawf wedi datblygu partneriaeth helaeth i gynorthwyo troseddwyr i ddod o hyd i waith. Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyrsiau amgen fel medrau gwledig ymarferol, celf a chrefft, pobi medrus, treftadaeth a gwaith ailgylchu. Mae hefyd yn hyfforddi pobl ar gyfer cyflogaeth yn y maes gofal cymdeithasol ac i weithio fel mentoriaid.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Yn y ddalfa

116 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn y rhan fwyaf o garchardai yn dda. Mae uwch dimau rheoli yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer dysgu a medrau, sy'n aml yn cysylltu'n dda â chynllun cyffredinol y carchar. Mae gan garchardai strategaethau effeithiol ar waith sy'n integreiddio dysgu a medrau ym mhob agwedd ar drefn y carchar. Mae cynlluniau gostwng aildroseddu carchardai yn cydnabod pwysigrwydd dysgu a medrau. Yn y rhan fwyaf o garchardai, mae'r strategaethau hyn yn dangos cysylltiadau clir â'r agenda dysgu a medrau a osodwyd gan Gyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

117 Mae'r rhan fwyaf o garchardai'n cyrraedd neu'n rhagori ar eu targedau NOMS ar gyfer dysgu a medrau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn gosod eu targedau cyrhaeddiad a dilyniant digon heriol eu hunain er mwyn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cyflawni eu llawn botensial.

118 Yn y rhan fwyaf o garchardai, mae rheolaeth weithredol yn dda neu'n dda iawn. Mae rheolwyr y cwricwlwm yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd effeithiol lle mae staff yn rhannu gwybodaeth ac yn cael cymorth. Yn yr achosion gorau, mae systemau rheoli da ar waith i adolygu ac arfarnu cyrsiau a rhaglenni. Mae prosesau ansawdd a strwythurau adrodd effeithiol ar waith sy'n galluogi rheolwyr i olrhain datblygiadau.

119 Mewn rhai enghreifftiau, nid yw uwch reolwyr yn egluro'n ddigon da i staff ar bob lefel beth yw eu blaenoriaethau a'u targedau bob amser. Mae hyn yn golygu nad yw'r holl staff yn deall rôl ganolog dysgu a medrau bob tro.

120 At ei gilydd, nid yw strategaethau ar gyfer rheoli presenoldeb a phrydlondeb gwael yn ddigon effeithiol. Nid yw staff y tu allan i'r adran dysgu a medrau yn herio presenoldeb a phrydlondeb gwael bob tro. Nid ydynt bob amser yn cofnodi'r rhesymau am hwyrni neu ddiffyg presenoldeb nac yn archwilio'r rhain yn ddigonol. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar gynnydd dysgwyr mewn rhai sesiynau.

121 Amherir ar ddysgu lleiafrif o ddysgwyr pan fydd y carchar yn eu trosglwyddo i sefydliadau eraill. Y rheswm am hyn yw oherwydd nad yw'r carchar nesaf yn cynnal yr un cyrsiau neu oherwydd bod y cwrs yn llawn.

122 Mewn tua hanner y carchardai, mae'r systemau ar gyfer casglu a monitro data yn dda. Mae ystod dda o ddata yn cael ei gasglu. Mae hyn yn cynnwys ffigurau effeithlonrwydd ystafelloedd dosbarth, data am dargedau perfformiad allweddol, a data ar recriwtio, presenoldeb a dargadw. Mae canlyniadau asesiadau medrau sylfaenol yn cael eu casglu hefyd. Yn y carchardai hyn, mae staff addysg yn defnyddio setiau data yn effeithiol i wella perfformiad ac ansawdd y ddarpariaeth dysgu a medrau.

123 Yn y carchardai lle nad yw'r gwaith o reoli data cystal, nid yw staff yn defnyddio data'n effeithiol i'w helpu gyda phenderfyniadau rheoli nac i wella'r ddarpariaeth. Nid ydynt yn cael adroddiadau rheolaidd ar gyfraddau dargadw neu gyflawni cyfredol.

124 Mae gan lawer o staff dysgu a medrau mewn carchardai gymwysterau da iawn. Mae ganddynt ystod o gymwysterau addysgu priodol a phrofiad mewn ystod o bynciau. Mae gan lawer o staff gymwysterau medrau sylfaenol hefyd. Er eu bod yn brofiadol iawn, nid oes gan rai staff, er enghraifft mewn llyfrgelloedd a gwasanaethau GCA, unrhyw gymwysterau ffurfiol.

125 At ei gilydd, mae gan staff addysg gorfforol ystod eang o gymwysterau chwaraeon. Maent yn defnyddio'r rhain yn dda i gynnig rhaglenni eang sy'n gwella medrau a chymwysterau dysgwyr. Mae gan staff hyfforddiant galwedigaethol ddyfarniadau aseswyr. Mae rhai ohonynt yn dechrau cyflawni eu dyfarniadau addysgu lefel gyntaf.

126 Mae gan yr holl garchardai drefniadau gwella ansawdd ar waith. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn amrywio. Yn yr achosion gorau, mae llawlyfrau defnyddiol ar sicrhau ansawdd yn cynnwys prosesau dysgu a medrau allweddol ac mae cynlluniau arsylwi addysg effeithiol ar waith. Mae tiwtoriaid yn cael adborth da ynghyd â chofnod o gamau gweithredu unigol. Mewn un carchar, mae cysylltiadau da â'r cynllun rheoli perfformiad staff.

127 Mae gan yr holl garchardai grŵp gwella ansawdd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r carchar. Mae presenoldeb yn amrywio ac, ambell waith, nid oes gan y grwpiau ddigon o gyfeiriad. Mae hyn yn atal y cynnydd y mae carchardai'n ei wneud wrth wella ansawdd ym mhob maes. Mae'r rhan fwyaf o garchardai'n llunio adroddiad hunanasesu, ond nid yw'r rhain yn ddigon arfarnol bob tro. Nid yw'r holl staff yn y carchar yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses hunanasesu.

128 Ar y cyfan, mae cyllideb dysgu a medrau carchardai yn cynnig gwerth boddhaol am arian. Mae staff uwch yn gwneud penderfyniadau ar wario sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r carchar, ac mae'r holl garchardai'n cyrraedd eu targedau perfformiad ar gyfer dysgu a medrau. Fodd bynnag, nid yw carchardai'n defnyddio adnoddau mor effeithiol ag y gallant bob tro. Er enghraifft, nid ydynt yn rheoli presenoldeb yn ddigon da ac weithiau mae gormod o leoedd gwag mewn dosbarthiadau bob dydd.

129 Nid oes gan un carchar strategaeth reoli ddiweddar ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae hyn yn golygu nad yw bob amser yn glir pwy sy'n gyfrifol am wella'r ddarpariaeth.

**Yn y gymuned**

130 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth dysgu a medrau yn amrywio ledled yr ardaloedd prawf. Yn y goreuon, mae nodau clir ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'r ddarpariaeth gwaith di-dâl, sy'n rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a phartneriaethau lleol. Mae cysylltiadau da rhwng gweithgareddau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a chynllun gweithredu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth NOMS a chynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru, er enghraifft Sgiliau Dyfodol Cymru. Caiff ymyriadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth eu cynnwys yn y cynllun busnes cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw uwch reolwyr yn rhoi digon o flaenoriaeth iddynt bob tro.

131 Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli gwaith staff ymyriadau. Mae staff yn deall nodau, amcanion a thargedau'r ardal y maent yn gweithio ynddi yn dda. Mae gan un gwasanaeth systemau effeithiol ar waith ar gyfer casglu a monitro data i gefnogi'r gwaith o reoli perfformiad.

132 Yn ystod 2007-2008, llwyddodd yr holl ardaloedd prawf i fodloni neu ragori ar eu targedau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ar gyfer troseddwyr yn cyflawni dyfarniadau medrau sylfaenol ac ar gyfer troseddwyr yn dod o hyd i waith.

133 Mae'r ffocws cryf ar gyrraedd targedau perfformiad yn golygu nad yw staff ymyriadau yn bodloni anghenion dysgu unigol yn ddigon da bob tro. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y troseddwyr hynny sy'n fwyaf agored i niwed. Mae ardaloedd prawf yn colli gormod o gyfleoedd i gynnig achrediad. Er enghraifft, mewn un ardal yn ystod 2007-2008, asesodd staff fod 372 o droseddwyr ar Lefel 1 neu Lefel 2 mewn Llythrennedd a 321 ar Lefel 1 neu Lefel 2 mewn Rhifedd. Fodd bynnag, roedd yr holl ddyfarniadau yn ystod y cyfnod hwn yn is na'r lefelau hyn.

134 O bryd i'w gilydd, mae ardaloedd prawf yn arfarnu eu gwaith yn dda. Er enghraifft, comisiynodd un ardal adroddiad annibynnol ar fedrau sylfaenol.

135 Mae llawer o reolwyr yn mynd ati'n ofalus i geisio barn defnyddwyr y gwasanaeth. Mae rheolwyr mewn un ardal yn gwneud defnydd da o holiaduron ymadael ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth er mwyn canfod barn troseddwyr. Caiff yr holiaduron hyn eu dadansoddi'n ofalus, ond nid yw'r dadansoddiad yn arwain at gynllun gweithredu ar gyfer gwella.

136 Mae staff gwaith di-dâl yn anfon holiaduron anhysbys i sefydliadau sy'n cael budd o'u prosiectau. Maent yn gwneud hyn er mwyn canfod eu barn am y Gwasanaeth Gwaith Di-dâl a ph'un a yw o fudd i'r gymuned ai peidio. Mae'r adborth cadarnhaol yn helpu troseddwyr i deimlo'n dda ynghylch eu gwaith.

137 Mae'r holl ardaloedd prawf yn comisiynu prosiectau a gwasanaethau er mwyn gwella ystod y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i droseddwyr. Mae'r partneriaethau hyn yn dod â gwerth ychwanegol da, gan eu bod yn manteisio i'r eithaf ar adnoddau.

138 Fodd bynnag, mae ansawdd y gwasanaethau hyn yn amrywio gormod o un ardal i'r llall. Er bod cytundebau lefel gwasanaeth ar waith, nid ydynt yn dweud yn ddigon clir pa systemau ansawdd y dylai darparwyr eu rhoi ar waith.

139 At ei gilydd, nid yw rheolwyr yn hyfforddi staff ymyriadau'n ddigon da i fodloni anghenion dysgu troseddwyr. Nid yw digon ohonynt yn cael eu hyfforddi mewn medrau sylfaenol, dyslecsia, arddulliau dysgu na sut i hyrwyddo agweddau ac ymddygiad cadarnhaol. Mewn un ardal, nid oes gan y rhan fwyaf o'r staff medrau sylfaenol ddigon o gymwysterau. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae ffocws da ar hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff ymyriadau. Mae tiwtoriaid rhaglenni achrededig yn cael hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o fedrau sylfaenol ac mae goruchwylwyr mewn gwaith di-dâl yn cwblhau cymwysterau addysgu a dysgu.

140 Ar y cyfan, mae cyllidebau dysgu a medrau'r gwasanaeth prawf yn cynnig gwerth boddhaol am arian. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau sy'n cael eu dyrannu ar gyfer medrau sylfaenol yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial bob tro. Er enghraifft, nid

yw rheolwyr prawf yn monitro atgyfeiriadau medrau sylfaenol na nifer y dysgwyr sy'n manteisio arnynt yn ddigon da. Mae hyn yn golygu bob lleoedd gwag yn y dosbarthiadau hyn yn aml. Hefyd, nid yw dysgwyr yn treulio'r 20% o amser gwaith di-dâl a ganiateir ar weithgareddau medrau sylfaenol. Mae'r rhain yn ddiffygion pwysig. Nid yw digon o droseddwyr sydd â medrau sylfaenol gwael yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

## Atodiad 1: Poblogaeth yr Oedolion sy'n Troseddu yng Nghymru

Darparwyd yr holl ddata yn yr adroddiad hwn gan RDS-NOMS.

**Carchardai**

Manylir ar y cynhwysedd caethiwo yng Nghymru a'r math o garchar yn y tabl canlynol:

| Carchar | Disgrifiad | Cynhwysedd Gweithredol* |
|---|---|---|
| Caerdydd | Carchar lleol i ddynion (21 oed neu'n hŷn) sy'n cynnwys uned ar gyfer y rheiny sydd â dedfryd oes. | 769 |
| Y Parc | Carchar hyfforddi categori B i ddynion a Sefydliad Troseddwyr Ifanc lleol (sydd ag uned â 64 gwely i bobl ifanc (15-17 oed) hefyd nad yw'n cael ei chynnwys yn y cyfanswm). | 1,200 |
| Abertawe | Carchar lleol i ddynion (21 oed neu'n hŷn). | 422 |
| Brynbuga a Phrescoed | Brynbuga – Carchar hyfforddi categori C i ddynion sy'n droseddwyr rhyw euogfarnedig. Prescoed – Carchar hyfforddi categori D (agored) i ddynion. | 428 |
| **Cyfanswm** | | **2,819** |

***** cymerwyd y data o PSimon (Gorffennaf 2008)

Ar 31 Mai 2008, roedd 2,803 o garcharorion gwrywaidd yn y ddalfa yng Nghymru.

Amlygodd cipolwg ar ddata ym mis Mehefin 2007 fod 39% o garcharorion gwrywaidd a ddedfrydwyd gan lysoedd yng Nghymru ar gyfer pob math o statws cadwraethol yn cael eu dal mewn carchardai yn Lloegr.

Gan nad oes unrhyw sefydliadau i ferched yng Nghymru, mae'r holl ferched sy'n cael eu hanfon i'r ddalfa gan lysoedd yng Nghymru, beth bynnag fo'u statws cadwraethol (heb eu barnu, heb eu dedfrydu ac euogfarnedig), yn cael eu hanfon i sefydliadau yn Lloegr.

Nododd data o fis Mehefin 2007 fod 187 o ferched o Gymru yn cael eu dal mewn carchardai yn Lloegr, a byddai disgwyl iddynt ailsefydlu yng Nghymru ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Mae poblogaeth y merched o Gymru sydd wedi troseddu wedi'i seilio ar y merched hynny a ddedfrydwyd gan lys yng Nghymru.

| Carchar | Poblogaeth a ddedfrydwyd | Poblogaeth sydd yn y ddalfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Eastwood Park | 69 | 30 | 99 |
| Send | 19 | 0 | 19 |
| Styal | 17 | 6 | 23 |
| Drake Hall | 11 | 0 | 11 |
| Downview | 9 | 0 | 9 |
| Foston Hall | 7 | 0 | 7 |
| New Hall | 5 | 1 | 6 |
| Peterborough | 4 | 0 | 4 |
| Low Newton | 2 | 0 | 2 |
| Askham Grange | 2 | 0 | 2 |
| Holloway | 2 | 0 | 2 |
| East Sutton Park | 1 | 0 | 1 |
| Morton Hall | 1 | 0 | 1 |
| Bronzefield | 1 | 0 | 1 |
| **Y cyfan** | **150** | **37** | **187** |

**Tabl 1: Poblogaeth y merched yn y ddalfa, a ddedfrydwyd yng Nghymru yn ôl y sefydliad presennol ar 30 Mehefin 2007**

**Prawf**

Mae'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru wedi'i drefnu o gwmpas y pedair ardal weinyddol sy'n ffurfio ffiniau gwasanaethau'r heddlu, sef Gogledd Cymru, Dyfed-Powys, De Cymru a Gwent.

Ar 30 Medi 2006, roedd y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru yn goruchwylio cyfanswm cyffredinol o 13,064 o droseddwyr. O'r rheiny, roedd 1,625 (12.4%) yn ferched a oedd wedi troseddu ac roedd 8,934 (68.4%) o gyfanswm cyffredinol y troseddwyr yn bwrw dedfryd gymunedol.

## Atodiad 2: Enghreifftiau o arfer dda yn y ddalfa

**Hyrwyddo’r iaith Gymraeg mewn carchar yn Lloegr sy’n dal merched o Gymru**

Roedd y llyfrgell yn cynnwys llyfrau Cymraeg a oedd yn addas ar gyfer gwahanol alluoedd darllen. Roedd llyfrau Cymraeg i blant hefyd, fel y gallai rhieni recordio stori ar gyfer eu plant. Trwy gydol yr adain Addysg, roedd mynediad da iawn at TGCh, gan gynnwys un pecyn sy’n cyfieithu o’r Saesneg i’r Gymraeg. Lle’r oedd arwyddion ar gael mewn ieithoedd eraill, roedd y Gymraeg wedi’i chynnwys.

**Cymorth i ferched sy’n dychwelyd i Gymru**

Mewn un carchar i ferched yn Lloegr, mae staff yn yr uned ailsefydlu yn rhoi cymorth da i ferched sy’n dychwelyd i Gymru. Mae ganddynt gysylltiadau da â llawer o sefydliadau Cymreig. Mae’r merched hyn yn cael gwybodaeth a chyngor defnyddiol, ynghyd â DVD ynghylch ailsefydlu. Mae cyswllt datblygol â Gyrfa Cymru. Mae gweithiwr ar secondiad o Gyrfa Cymru (i’r Gwasanaeth Prawf) yn ymweld â’r carchar. Hefyd, mae cynlluniau mentora sy’n cynnwys cyn-droseddwyr i gefnogi’r rheiny sy’n dychwelyd adref. Mae gan y ffair ailsefydlu ystod dda o sefydliadau o Gymru sy’n darparu gwybodaeth yn ddwyieithog.

**Meithrin partneriaethau allanol**

Mae un carchar yn meithrin partneriaethau allanol da. Mae’n cydweithio’n effeithiol â phrifysgolion. Mae’n darparu mynediad at gyrsiau ar lefel uwch na’r hyn y gall y carchar ei gynnig. Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd dilyniant da i ddysgwyr. Mae un brifysgol yn anfon tiwtor i’r carchar am ddwyawr yr wythnos. Mae tiwtor o brifysgol arall yn ymweld â’r carchar yn fisol. Maent yn darparu cymorth ychwanegol i’r troseddwyr hynny sy’n gweithio tuag at raddau dysgu o bell. Hefyd, mae ganddynt gysylltiadau da iawn â sefydliad sy’n darparu cyrsiau misol ar hunangyflogaeth a rhedeg busnes bach. Mae’r awdurdod lleol hefyd yn gweithio gyda’r carchar er mwyn dysgu cyrsiau iaith a chwrs iaith a chwarae i dadau.

**Hyfforddiant yn y gwaith mewn carchardai**

Mewn un carchar, gall troseddwyr weithio yn y gymuned yn ystod y dydd. Mae rhai ohonynt yn mynychu colegau lleol i ddilyn cyrsiau gosod brics neu weldio hyd at CGC Lefel 3. Mae staff y carchar yn defnyddio gwybodaeth gan y Cyngor Sgiliau Adeiladu yn dda er mwyn datblygu’r ddarpariaeth. Maent wedi sefydlu hyfforddiant gweithredu peiriannau ar fferm y carchar. Gall troseddwyr ennill medrau mewn gweithredu llif gadwyn a gyrru wagen fforch godi.

**Ailsefydlu'n llwyddiannus**

Mewn un carchar, mae staff yn meithrin cysylltiadau â diwydiant gwasanaeth mawr iawn. Mae'n recriwtio cyn-droseddwyr i weithio yn ei ganolfan alwadau. Mae hyn o fudd i droseddwyr, cyflogwyr a'r gymuned ehangach. Mae'n cynyddu'r siawns o ailsefydlu'n llwyddiannus. Mewn enghraifft arall, sefydlodd dysgwr, a hyfforddwyd ar gwrs barbwr, ei siop farbwr ei hun wedi iddo adael y carchar.

## Atodiad 3: Enghreifftiau o arfer dda yn y gymuned

**Arfer dda wrth ddarparu CGA**

Mae gan un ardal brawf gytundeb lefel gwasanaeth â Gyrfa Cymru. Mae ei staff yn darparu cymorth ôl-raglen da i lawer o droseddwyr. Ceir cyfeirio effeithiol at wasanaethau eraill. Mae Gyrfa Cymru'n cynhyrchu taflen ddwyieithog o'r enw 'A yw eich trosedd yn eich dal yn ôl?' Mae hyn yn helpu troseddwyr i ystyried effaith eu trosedd ar eu cyflogaeth yn y dyfodol. Mae staff gyrfaoedd yn brofiadol ac yn meddu ar CGC lefel 4 mewn CGA. Mae'r holl droseddwyr yn cael asesiad cyfeillgar, ysgogol ac yn cytuno ar gynllun gweithredu realistig a chyraeddadwy, sy'n bodloni anghenion y farchnad lafur leol. Mae'r staff yn helpu troseddwyr i ysgrifennu llythyrau at ddarpar gyflogwyr am eu troseddau. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn mynychu ffair yrfaoedd i ferched o Gymru sy'n cael eu dal mewn carchar yn Lloegr. Mae'r ymgynghorydd gyrfaoedd yn cefnogi troseddwyr sydd am barhau i ddysgu ar ddiwedd eu gorchmynion.

**Prosiect hyfforddi llwyddiannus**

Mae gweithwyr ymyriadau mewn un ardal yn atgyfeirio troseddwyr i brosiect marchnad lafur cyfryngol llwyddiannus mewn gofal cymdeithasol. Mae'r prosiect hwn yn darparu gweithdai datblygiad personol heriol. Mae troseddwyr yn cynhyrchu portffolios o ansawdd da gyda thystysgrifau mewn medrau sylfaenol, cymorth cyntaf, hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch. Mae'r cwrs yn para chwe wythnos ac mae'r lleoliad am bum wythnos. Mae un troseddwr a gwblhaodd y cwrs wedi symud ymlaen i weithio fel gweithiwr cymorth mewn canolfan ddigartref, ac mae'n gweithio tuag at CGC Lefel 2 mewn gofal cymdeithasol. Mae gan y prosiect gyfradd lwyddiant o 95% o ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy i bobl heb hanes o weithio.

**Prosiect gwaith di-dâl llwyddiannus**

Mae gan y Gwasanaeth Prawf gontract ag ymddiriedolaeth gadwraeth i ddarparu prosiectau gwaith di-dâl ar gyfer dysgwyr yng ngorllewin Cymru. Mae'r prosiectau'n cynnwys codi waliau sych, adennill tir a gwella mynediad at gefn gwlad trwy adeiladu a gosod gatiau mochyn. Ymfalchïodd dysgwyr yn fawr yn yr hyn y gwnaethant ei gyflawni yn y prosiectau hyn. Gwnaethant arddangos ffotograffau o'u gwaith yn y ganolfan rhaglenni. Roedd ganddynt fynediad at ystod dda o achrediadau ar gyfer eu medrau a gwnaethant gynnydd da tuag at eu datblygu. Gwnaethant gofnodi eu cynnydd yn glir ac yn ofalus mewn ffeiliau trefnus. Fe wnaeth staff y rhaglen fonitro ac adolygu'r rhain yn rheolaidd. Yn ystod yr adolygiadau hyn, gosododd y staff amcanion dysgu newydd a oedd yn gweddu amgylchiadau a galluoedd dysgwyr unigol. Roedd Cynlluniau Dysgu Unigol yn glir, wedi'u diweddaru'n dda ac wedi'u cysylltu ag anghenion dysgwyr. Cwblhaodd y dysgwyr ffurflenni hunanasesu hefyd ar ddechrau a diwedd y rhaglen, a oedd yn dangos yn glir fel yr oedd eu hyder, eu hunan-barch a'u cymhelliant wedi datblygu.

Gwnaeth dysgwyr gynnydd da, ac roeddent yn deall yr hyn yr oedd angen iddynt ei wneud i symud ymlaen. Parhaodd rhai ohonynt â phrosiectau ar ôl iddynt gwblhau gorchymyn. Cyflogodd y prosiect rai ohonynt fel goruchwylwyr. Helpodd y staff i'r dysgwyr gynllunio eu dilyniant. Manteisiodd y dysgwyr yn dda ar yr arddangosiadau swyddi gwag er mwyn canfod pa swyddi oedd ar gael. Gwnaethant ddysgu sut i ddefnyddio cyfrifiaduron a sut i chwilio am swyddi ar y rhyngrwyd. Defnyddiodd y dysgwyr wefan Gyrfa Cymru hefyd, ynghyd â'i ffeil e-Gynnydd i gofnodi eu cyflawniadau ac i ddarganfod am eu harddulliau dysgu. Gwnaethant lunio eu CVau eu hunain i safon uchel iawn, er gwaethaf y ffaith nad oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi defnyddio cyfrifiaduron cyn ymuno â'r prosiect.

**Cynorthwyo cleientiaid prawf i ddod o hyd i waith trwy wasanaethau Ardal Gyflogaeth**

Mae ansawdd yr hyfforddiant yn dda ac mae gan gleientiaid raglenni unigol wedi'u teilwra sy'n bodloni eu hanghenion yn dda. Mae gan y cwmni ddealltwriaeth dda o amodau gwaith lleol. Maent yn nodi anghenion cyflogwyr yn effeithiol ac yn cydweddu cynnwys rhaglenni cleientiaid yn ofalus er mwyn bodloni'r anghenion hyn. Maent yn gwneud defnydd da o weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â chleientiaid sydd dan anfantais.

Mae ymgynghorwyr yn rhoi lefel dda iawn o arweiniad ac anogaeth i gleientiaid ac yn cyfarfod â nhw'n gyson er mwyn gwirio eu cynnydd. Maent yn gosod ac yn monitro targedau byrdymor cleientiaid yn dda ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros chwilio am waith yn annibynnol. Mae ymgynghorwyr hefyd yn cynnig 'cyfrifiad buddion yn y gwaith' defnyddiol i gleientiaid. Mae hyn yn helpu cleientiaid i ddeall buddion ariannol gweithio ac mae'n aml yn cynyddu eu cymhelliant i fynd ati i ystyried chwilio am waith.

## Atodiad 4: Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AHCh** | Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth |
| **Ailsefydlu** | Y broses sy'n galluogi troseddwr i ailgartrefu yn y gymuned ar ôl cwblhau ei ddedfryd. |
| **Ardaloedd Cyflogaeth** | Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n rhan o sawl menter lwyddiannus i helpu pobl ddi-waith hirdymor i ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy a'i chadw. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys Ardaloedd Cyflogaeth, sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd daearyddol diffiniedig, clir. Mae dwy o'r ardaloedd hyn yng Nghymru. |
| **Cynllun y ddedfryd** | Cynllun su'n nodi ymagwedd gyson, adeiladol a chydlynol y dylid ymgymryd â hi yn ystod dedfryd gyfan y troseddwr, p'un a yw hynny yn y ddalfa neu yn y gymuned, gan arwain at ostwng aildroseddu. |
| **Darparwr** | Y rheiny sy'n darparu gwasanaethau dysgu a medrau, er enghraifft staff y carchar/gwasanaeth prawf, sefydliad partner neu gontractwr. |
| **Dysgu Hyblyg** | Gallai hyn gynnwys dysgu agored neu ddysgu o bell, sy'n aml yn cael ei hunangyfarwyddo a'i wneud ar adeg sy'n gyfleus i'r dysgwyr. |
| **GCA** | Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad |
| **Gwaith di-dâl** | Gellir dedfrydu troseddwyr i wneud rhwng 40 a 300 awr o waith di-dâl yn y gymuned. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau gwaith di-dâl o fudd uniongyrchol i'r gymuned leol. Mae enghreifftiau o gynlluniau gwaith di-dâl yn cynnwys adfywio ardaloedd dirywiedig ar gyfer hamdden gyhoeddus, addurno neuaddau pentref a chlybiau ieuenctid neu helpu elusennau i ddarparu gwasanaethau i'r rheiny sydd mewn angen. Gellir defnyddio 20 y cant o'r oriau hyn ar gyfer medrau sylfaenol a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith. |
| **Rhaglenni achrededig** | Mae rhaglenni achrededig yn helpu troseddwyr i newid eu hagweddau, eu meddylfryd a'r ymddygiad sy'n cyfrannu at eu troseddu. |
| **Rheolwr Troseddwyr** | Mae hwn yn swyddog yn y gwasanaeth prawf sy'n cydlynu ac yn rheoli rhaglenni a chymorth ar gyfer ailsefydlu troseddwyr. |

| | |
|---|---|
| **RhDDD** | Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro. Gall nifer ddethol o droseddwyr adael y carchar yn ystod y dydd i fynychu'r coleg neu waith neu i fynd i gyfweliadau. |
| **Troseddwyr** | Caiff y term 'troseddwyr' ei ddefnyddio i gyfeirio at y rheiny sy'n 18 oed neu'n hŷn, p'un a ydynt yn y ddalfa, yn bwrw rhan o'u dedfryd yn y gymuned neu dan oruchwyliaeth yn y gymuned. Nid yw'r rheiny sydd yn y ddalfa yn droseddwyr. |
| **Ymyriadau** | Camau gweithredu penodol wedi'u cynllunio gan wasanaeth proffesiynol a/neu benodol sydd â'r nod o ostwng aildroseddu, er enghraifft cwrs ymddygiad troseddol neu alcohol a chyffuriau. |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a'r tîm arolygu

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Rachael Bubalo AEM |
| **Arolygydd Tîm** | Una Connolly AEM |
| **Arolygydd Tîm** | Angharad Reed AEM |